**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1547
Ein cyf HIDCC/01406/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Carolyn,

27 Awst 2025

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf am y ddeiseb sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd pob math o dreillrwydo ar waelod y môr, gan longau tramor a rhai'r DU yn Nyfroedd Cymru.

Mae ein hamgylchedd morol yn werthfawr, ac mae angen i ni sicrhau ei fod yn iach a gwydn er lles cenedlaethau'r dyfodol. Mae moroedd Cymru ymhlith y rhai mwyaf cyfoethog a bioamrywiol yn Ewrop. Maen nhw'n gartref i lawer o gynefinoedd a rhywogaethau o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae gan Gymru rwydwaith eang o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cwmpasu 50% o holl ddyfroedd Cymru. Mae'n hollbwysig bod pob un yn cael ei rheoli'n effeithlon i sicrhau bod ein rhwydwaith o ardaloedd yn wydn ac mewn cyflwr ffafriol i fodloni safonau bioamrywiaeth rhyngwladol, megis 30x30, ynghyd â'r targedau domestig a gyflwynir cyn hir gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Mae angen rhoi sylw i lawer o ffactorau wrth ystyried treillrwydo yn ein Hardaloedd Gwarchodedig.

Fflyd arfordirol fach, sy'n targedu pysgod cregyn, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o bysgota yng Nghymru. Ychydig o ddefnydd sydd ar offer pysgota sy'n cael ei lusgo ar hyd waelod y môr, fel treillrwydi a llusgrwydi, yn nyfroedd glannau Cymru (hyd at 12 môr-filltir o'r lan). Ein pysgodfa cregyn y brenin sy'n eu defnyddio fwyaf ac mae Cynllun Rheoli newydd ei baratoi ar ei chyfer.

Mae'n bwysig cofio bod pysgodfa cregyn y brenin eisoes yn cael ei rheoli'n dynn. Cyn rhoi trwydded, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd i sicrhau na fydd pysgodfa yn cael effaith andwyol ar nodweddion gwarchodedig Safleoedd Morol Ewropeaidd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwelliannau rheoli pellach yn yr arfaeth i Gynllun Rheoli Pysgodfa cregyn y brenin. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer fframwaith newydd o fesurau er mwyn gallu addasu'r ffordd y mae'r bysgodfa hon yn cael ei rheoli. Caiff ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal ar hyn. Yr un pryd â'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid, rydym wedi comisiynu Prifysgol Bangor i ymchwilio i sensitifrwydd gwely'r môr a chyflwr ecosystemau benthig yn yr ardaloedd pysgota am gregyn bylchog i'n helpu i'w rheoli yn y dyfodol.

Yng ngweddill parth Cymru, mae llongau'r UE yn targedu cimychiaid Norwy a physgod dyfnforol yn y Môr Celtaidd. Mae eu hawliau'n cael eu rheoli gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu - y mae'r DU a'r UE newydd gytuno i'w ymestyn am 12 mlynedd arall.

Mae rhoi rhaglen Cynllun Rheoli'r Bysgodfa ar waith yn dal i fod yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Mae'n ffordd bwysig a systematig o wella'r modd y mae pysgodfeydd penodol yn cael eu rheoli ac offer pysgota penodol fel llusgrwydi yn cael eu defnyddio naill ai o fewn Ardal Warchodedig neu yn yr amgylchedd morol ehangach. Bydd unrhyw fesurau rheoli ar gyfer offer llusgo eraill ar waelod y môr yn cael eu datblygu a'u gweithredu fel rhan o Gynlluniau Rheoli eraill, sef Cynlluniau Rheoli Pysgodfa Ddyfnforol Môr Iwerddon a Physgodfa Ddyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel a fydd yn cael eu cyhoeddi yn 2026.

Wrth ystyried rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodedig Morol Cymru, mae'n bwysig cofio ei fod yn gymhleth iawn ac yn cynnwys 139 o safleoedd. Mae rhai o'r safleoedd yn fawr iawn ac yn gwarchod rhywogaethau symudol a nodweddion cynefin benthig (gwely'r môr). Fodd bynnag, mae nodweddion cynefin benthig unigol fel arfer ond i'w cael mewn rhan o safle. Hefyd, mae rhai safleoedd wedi'u dynodi oherwydd adar môr neu forfilod symudol yn unig ac na cheir ynddynt unrhyw nodweddion benthig dynodedig o gwbl.

Yn ddiweddar, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi asesiadau o gyflwr Ardaloedd Gwarchodedig Morol Cymru sy'n cwmpasu 84 o nodweddion o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA) ar hyd lannau Cymru. Mae'r asesiadau hyn – y rhai cynhwysfawr cyntaf ar lefel nodweddion dynodedig - yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig i'n helpu i ddeall iechyd ein Hardaloedd Gwarchodedig. Dangosodd yr asesiadau nad oedd yr un cynefin neu rywogaeth a aseswyd o fewn y rhwydwaith mewn cyflwr anffafriol oherwydd effeithiau pysgota. Gellir gweld yr asesiadau yma Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiadau cyflwr ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd Cymru (EMS)

Sgomer yw'r unig MCZ (Parth Cadwraeth Morol) yng Nghymru a chafodd ei ddynodi i warchod rhywogaethau a chynefinoedd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r moroedd o fewn MCZ Sgomer yn dod o dan is-ddeddfau pysgodfeydd penodol sy'n gwahardd defnyddio offer pysgota symudol sy'n cyffwrdd â gwaelod y môr, sef treillrwydi a llusgrwydi.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfyngiadau pellach ar y defnydd o offer llusgo ar waelod Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru, gwna hynny ar sail tystiolaeth gadarn, anghenion y nodweddion ac amcanion cadwraeth safleoedd.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig